

CYFLWR

Y

GENEDL

2013-14

CYMRU

**YN YR ARDAL ORAU MAE
PEDAIR GWAITH
MWY O BOBL
YN CAEL Y PROFION IECHYD
Y MAE ARNYNT EU HANGEN
NA PHOBL YN YR
ARDAL WAETHAF**

DiABETES UK
CARE. CONNECT. CAMPAIGN.
GOFALU. CYSYLLTU. YMGYRCHU.
CYMRU

Rhagair	3	15 Eifen Hanfodol Gofal Iechyd	18	Gofal Arbenigol	32
Edrych yn ôl ar 2012	4	HbA1c, pwysedd gwaed, colesterol	20	Cymorth emosiynol a seicolegol	33
Edrych ymlaen	6	Sgrinio retinol	22	Cyfeiriadau	34
Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes	8	Gwirio'r traed	23	Cydnabyddiaethau	36
Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni Diabetes 2013-2016	10	Gweithrediad yr arennau	24		
Cynnydd mewn Diabetes	12	Pwysau	25		
Cymhlethdodau Diabetes	13	Ysmygu	26		
Atal a chanfod yn gynnar – Diabetes Math 2	14	Cynllunio gofal	27		
Canfod yn gynnar – Diabetes Math 1	15	Addysg a hunanreoli	28		
Safonau gofal oedolion	16	Gofal diabetes pediatrig	29		
Lleihau amrywioldeb gwasanaethau diabetes	17	Gofal cleifion mewnol	30		
		Gofal Beichiogrwydd	31		

RHAGAIR



Yn ystod y 12 mis diwethaf mae newidiadau wedi bod ar droed yn y modd y mae Cymru yn ymdrin â gwasanaethau diabetes. Ym Mehefin 2012, roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes¹ wedi cydnabod diffygion sylweddol yn y modd yr oedd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes yng Nghymru 2003-2013² yn cael ei gyflawni. Gwrandawodd y Pwyllgor ar 24 awr o dystiolaeth gan y gymuned diabetes yng Nghymru a rhoi 13 o argymhellion. Mae'r cyfan wedi'u cynnwys yn strategaeth diabetes newydd Llywodraeth Cymru, Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni Diabetes: 2013-2016³. Elfen allweddol o'r strategaeth newydd yw'r gofyniad ar fyrddau iechyd i gydnabod lle nad yw'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol wedi cyrraedd y nod a chywiro hyn.

Mae Diabetes UK Cymru yn edrych yn optimistaidd tuag at y dyfodol. Mae'r elusen o'r farn bod gennym Weinidog Iechyd sy'n deall pam mae dulliau'r gorffennol wedi methu ac mae'n barod i ddysgu o hyn.

Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn ymrwymo i gyflawni'r canlynol:

- penodi Arweinydd Clinigol Diabetes newydd i roi mwy o ffocws ar wasanaethau diabetes a'u hamlygu ledled Cymru a'u harolygu
- gweithredu SCI Diabetes, system integredig i reoli cleifion sydd wedi gweithio'n llwyddiannus yn yr Alban ers 10 mlynedd, a fydd yn ein helpu i fesur a dadansoddi cynnydd
- sefydlu Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru Gyfan, sef corff cenedlaethol o glinigwyr a rhanddeiliaid o'r gymuned diabetes i ddarparu cyfeiriad cenedlaethol, sicrhau adroddiadau tryloyw am effeithiolrwydd gwasanaethau diabetes a sicrhau bod byrddau iechyd yn cael arweiniad a oruchwyliaeth a'u bod yn cael eu monitro'n effeithiol.

Mae corff cenedlaethol newydd, y Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan, wedi dewis y meysydd canlynol yn flaenoriaethau ar gyfer symud ymlaen:

- pediatreg – sefydlu rhwydwaith glinigol newydd ac adolygiad gan gydweithwyr i hybu safonau a lleihau amrywioldeb
- atal – sicrhau gwell cyfathrebu am beryglon diabetes, manteision asesiad risg a rhagor o hyrwyddo effeithiol ynglŷn â newid ffordd o fyw i'r rheini sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflwr
- canolbwytio ar y claf – rhoi gwell grym i gleifion trwy addysg
- gwell cymorth clinigol – trwy weithredu'r llwybr Rhoi eich Traed yn Gyntaf yn llawn er mwyn sicrhau gostyngiad yn nifer y llawdriniaethau i golli darn o'r corff.

Gan adlewyrchu'r ymrwymadau o ran pediatreg, bydd fframwaith adolygu newydd gan gydweithwyr hefyd yn cael ei fabwysiadu ar gyfer gwasanaethau oedolion i sicrhau gwasanaethau llai amrywiol ledled Cymru. Bydd 2014 yn flwyddyn i brofi a all yr agwedd newydd hon tuag at wasanaethau diabetes gael ei throsglwyddo i newid ymarferol a deilliannau mewn byrddau iechyd ledled Cymru.

**Dai Williams, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru
Diabetes UK Cymru**

EDRYCH YN ÔL AR 2012

Yn 2012, nododd Diabetes UK lawer o feysydd allweddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt er mwyn galluogi gwelliannau ymarferol yn safon gwasanaethau diabetes a'r modd yr oedd gwasanaethau'n cael eu darparu a'u rheoli yng Nghymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno asesiad risg diabetes yn flynyddol ac ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth ar lefel genedlaethol yn ôl yr hyn a argymhellir gan NICE

- Mae cynllun newydd Llywodraeth Cymru, Ychwanegu at Fywyd (profion iechyd blynyddol i'r rhai dros 50 oed) yn cynnwys Sgôr Risg Diabetes UK. Mae pawb sy'n ymgymryd â'r profion iechyd newydd yn cael asesiad risg ac yn cael gwybodaeth am y llwybr priodol.
- Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes (2012) a'r Ymchwiliad i Rôl Gwasanaethau Fferyllfeydd yn y Dyfodol (2012)⁴ wedi argymhell i fferyllfeydd chwarae rôl bwysicach yn asesu risg diabetes a darparu gwybodaeth.
- Mae Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan wedi cytuno y dylid mabwysiadu ymateb mwy cydlynol i atal diabetes. Mae'r grŵp wedi nodi'r mater hwn yn un o'i bedwar ffrwd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2014.

GIG Cymru yn penodi Arweinydd Clinigol Diabetes i ddarparu arweiniad a goruchwyliaeth effeithiol ar gyfer y Cynllun Cyflawni Diabetes newydd

- Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Wasanaethau Diabetes wedi argymhell 'y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol yn cael ei weithredu trwy gryfhau trefniadau arolygu a monitro, a bod hynny'n flaenoriaeth yn y cynllun cyflawni arfaethedig. Credwn y dylai hyn gynnwys swydd arweinydd cenedlaethol i gydgyssylltu cynnydd byrddau iechyd wrth gyflawni'r Fframwaith, a hwyluso'r gwaith o rannu profiadau ac arfer da rhwng byrddau iechyd.
- Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn ymrwymo i sefydlu rôl glinigol diabetes newydd.

Sicrhau bod meddygfeydd teulu yn cymryd rhan yn ddiofyn, ac yn gorfod dewis peidio â chymryd rhan, yn y system i gyflwyno gwybodaeth i'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol er mwyn sicrhau gwell gwybodaeth am diabetes yng Nghymru

- Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi argymhell 'y dylai'r cynllun cyflawni arfaethedig gynnwys gofyniad ar holl feddygfeydd teulu i gymryd rhan yn yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol.'
- Mae'r Gweinidog Iechyd wedi derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor ond mae wedi cadarnhau y bydd cynnydd y dyfodol yn cael ei sicrhau trwy 'berswâd' yn hytrach na rheidrydd.
- Mae cynnydd wedi bod yn nifer y meddygfeydd teulu sy'n cymryd rhan yn yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol o 57% i 80% yn ystod y deuddeg mis diwethaf.⁵

GIG Cymru yn canolbwyntio llawer mwy ar sicrhau bod meddygfeydd teulu yn bodloni gofynion NICE i sicrhau bod y Naw Proses Gofal Allweddol ar gyfer pobl â diabetes yn cael eu cyflawni'n flynyddol

- Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi argymhell 'y dylai cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru sicrhau bod holl gleifion diabetes yn cael cynnig y naw prawf iechyd blynyddol allweddol, ac y dylai perfformiad byrddau iechyd wrth fodloni'r gofyniad hwn gael ei fonitro trwy gymryd rhan gyflawn yn yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol.
- Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn cynnwys mesurydd perfformiad ar gyfer holl fyrddau iechyd Cymru. Mae'n ofyniad ar bob bwrdd iechyd i adrodd yn gyhoeddus 'y % o bobl â diabetes sy'n cael yr holl fesuriadau dangosyddion allweddol ar gyfer diabetes'.
- Roedd 43.2% o bobl â diabetes Math 1 a 62.6% o bobl â diabetes Math 2 wedi cael yr holl brosesau gofal allweddol yn 2011/2012.⁶

Dylai pob un â diabetes gael cynnig cyngor a gwybodaeth sylfaenol ar ddiagnosis a chael mynediad i addysg diabetes strwythuredig yn fuan wedi hyn. Bydd yn gwella hunanreoli ac yn lleihau costau meddyginiaeth a chymhlethdodau

- Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi argymhell 'y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ar unwaith â'r amrywiannau yn y ddarpariaeth addysg strwythuredig ar gyfer pobl â diabetes. Dylai'r cynllun cyflawni arfaethedig ei wneud yn ofynnol i'r holl fyrddau iechyd ddarparu rhaglenni addysg strwythuredig sy'n cydymffurfio â NICE a sicrhau mynediad cyfartal i addysg briodol ac amserol ar gyfer yr holl gleifion ledled Cymru'.
- Mae Fframwaith Canlyniadau ac Ansawdd 2013/14 wedi sefydlu dangosydd ar gyfer cyfeirio at raglen addysg strwythuredig am diabetes ymhen 9 mis o gyrraedd y gofrestr diabetes.⁷
- Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn cynnwys mesurydd perfformiad ar gyfer yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae'n nodi ei fod yn orfodol i fyrddau iechyd gael rhaglenni addysg strwythuredig ar waith i ymdrin â'r atgyfeiriadau hyn. Mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd adrodd '% y plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n derbyn addysg strwythuredig am diabetes o fewn naw mis o ddiagnosis'.
- Mae'r Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan wedi cytuno y bydd ymgyrch genedlaethol i wella darpariaeth addysg strwythuredig am diabetes yn elfen bwysig o un o'i bedwar ffrwd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2014.

Yr holl Fyrddau Iechyd i fabwysiadu'r cynllun ThinkGlucose sydd wedi cael ei brofi'n llwyddiannus ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf er mwyn lleihau y camgymeriadau meddygol yn sylweddol

- Mae Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn argymhell 'y dylai ThinkGlucose gael ei gyflwyno yn yr holl fyrddau iechyd ledled Cymru'.
- Mae'r Gweinidog Iechyd wedi derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor ond nid yw'n fodlon rhoi cefnogaeth y Llywodraeth i un dull. Mae wedi nodi, 'Rydym am i fyrddau iechyd wneud yr hyn mae ThinkGlucose yn ei wneud, a gweithio gyda'r ymgyrch 1000 o Fywydau⁸, byddwn yn sicrhau y bydd hyn y digwydd'.

- Roedd Archwiliad Cenedlaethol Cleifion Mewnol Diabetes (2012) wedi adrodd bod 36.7% o gleifion â diabetes wedi bod yn destun camgymeriad meddygol yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty.⁹

GIG Cymru i fabwysiadu system reoli TG/data unigol ar gyfer pobl â diabetes i ymdrin ag holl agweddau eu gofal

- Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi argymhell 'y dylai cyflwyno system reoli integredig i gleifion â diabetes fod yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru'.
- Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn cadarnhau ymrwymiad i 'sefydlu system integredig Cymru gyfan ar gyfer rheoli cleifion sydd â diabetes er mwyn galluogi darpariaeth well, effeithlon ac effeithiol o ran gofal iechyd, a fyddai'n cynnwys casglu gwybodaeth ar lefel byrddau iechyd a lefel Cymru gyfan ar gyfer dangosyddion canlyniadau a'r mesurau perfformiad'.
- Mae Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru wedi cychwyn gwaith ar y system newydd.

Dylai pobl â diabetes weld gweithwyr gofal iechyd diabetes arbenigol er mwyn eu helpu i reoli eu diabetes. Mae Archwiliadau Nyrsys / Gweithlu / Ymgynghorwyr Arbenigol Diabetes yn dangos bod yr holl swyddi arbenigol islaw'r lefelau a argymhellir a cheir diffyg hyfforddiant ymhlith staff cyffredinol y ward a'r practis.

- Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi argymhell 'i Lywodraeth Cymru ymgymryd ag archwiliad o nifer y nyrsys arbenigol diabetes ledled Cymru, a chyfran yr amser yr oeddent yn eu dreulio ar ddyletswyddau cyffredinol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwerth rhoi canllawiau i fyrddau iechyd ar nifer y nyrsys diabetes a argymhellir fesul pen o'r boblogaeth'.
- Mae'r Gweinidog Iechyd wedi derbyn yr argymhelliad. Mae archwiliad o'r nyrsys arbenigol yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd.

Llai o amrywioldeb yn safon a darpariaeth y gwasanaethau i bobl â diabetes

Mae adroddiad Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2011/2012: Prosesau Gofal a Thargedau Triniaeth yn cadarnhau darlun o amrywioldeb uchel yn safon a darpariaeth effeithiol gofal diabetes ledled Cymru a Lloegr. Mae llai nag 20% o bobl â diabetes yn cael eu holl brosesau gofal mewn rhai byrddau iechyd/grwpiau comisiynu clinigol tra mae bron i 80% o'r rhai eraill yn cael eu holl brofion¹⁰. Mae pobl â diabetes Math 1 yn cael gwasanaeth gwaeth na'r rheini â diabetes Math 2. Mae canran y cleifion sy'n cyrraedd targedau triniaeth ar gyfer HbA1c, pwysedd gwaed a cholesterol yn amrywio rhwng 15%-27% ledled y gwahanol fyrddau iechyd a grwpiau comisiynu clinigol.¹¹

- **Argymhelliad:** Mae angen i'r gymuned diabetes yng Nghymru gydweithio i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r Grŵp Ymgynghori Arbenigol Cenedlaethol, y Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan a Chymdeithas Gofal Sylfaenol Diabetes mewn sefyllfa dda i asesu pam mae cymaint o amrywioldeb a chynnig awgrymiadau ymarferol i ddarparu cymorth i feysydd gofal sylfaenol er mwyn hwyluso gwelliant yn neilliannau perfformwyr gwael.

Gwell gofal traed a lleihau llawdriniaethau i gollu darn o'r corff

Mae canllawiau clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a'r Llwybr Gofal Rhoi Eich Traed yn Gyntaf¹² a gefnogir gan Gymdeithas Diabetes ac Endocrin Cymru a Chymdeithas Gofal Sylfaenol Diabetes yn gosod fframwaith clir i fyrddau iechyd i leihau'r llawdriniaethau i gollu darn o'r corff a achosir gan diabetes. Mae llawer o waith i'w wneud. Yn 2012, dim ond 21.7% o bobl â diabetes a gafodd archwiliad o'r traed wrth gael eu derbyn i'r ysbyty¹³ ac nid oedd gan 53% o ysbytai dîm gofal traed amlddisgyblaethol¹⁴. Mae Law yn Llaw: Cynllun Cyflawni Diabetes yn cynnwys dangosyddion perfformiad cryf i wella gofal traed yng Nghymru ac mae Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan wedi nodi cyflawni'r Llwybr Gofal Rhoi Eich Traed yn Gyntaf yn flaenoriaeth.

- **Argymhelliad:** GIG Cymru yn llwyddo i weithredu'n llawn y Llwybr Gofal Rhoi Eich Traed yn Gyntaf erbyn 2015.

Darpariaeth mwy teg o bympiau inswlin

Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi clywed tystiolaeth yn arddangos yr amrywioldeb o ran darparu pypiau inswlin ac mewn ymateb, argymhellodd y dylai cynllun cyflawni arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys gofyniad i wella argaeledd addysg a hyfforddiant ar ddefnyddio pypiau inswlin. Mae rhieni plant â diabetes Math 1 yn cysylltu'n rheolaidd â Diabetes UK Cymru oherwydd eu bod yn cael anhawster i gael pwmp hyd yn oed pan fydd ymgynghorydd diabetes o'r farn ei fod yn ofyniad clinigol. Mae rhestrau aros hir oherwydd rhesymau ariannol yn hytrach na rhesymau clinigol yn gyffredin, ac mae hyn yn dangos nad yw canllawiau Gwerthusiad Technoleg NICE¹⁵, sy'n ofyniad cyfreithiol i fyrddau iechyd, yn meddu ar lawer o ddylanwad.

- **Argymhelliad:** Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan a'r Arweinydd Clinigol Diabetes i ddarparu canllawiau ymarferol a realistig i fyrddau iechyd i sicrhau ymateb cyson i'r therapi hwn ar gyfer pawb sy'n dioddef o diabetes yng Nghymru.

Gwell cymorth i alluogi pobl i hunanreoli eu diabetes

Dylid canmol Llywodraeth Cymru am ei ymrwymiad i addysg strwythuredig am diabetes. Er bod ei darpariaeth a dargedwyd i bobl sy'n cael diagnosis o diabetes am y tro cyntaf yn synhwyrol, mae Llywodraeth Cymru, clinigwyr a sefydliadau cleifion yn cydnabod bod cyfyngiadau ariannol yn golygu ymestyn y ddarpariaeth hon ac ni fyddai'r manteision a fyddai'n cronni i'r holl bobl â diabetes yn bosibl. Mae'r Gweinidog Iechyd wedi dweud bod 'angen ystod o addysg er mwyn sicrhau bod gennym restr eang o raglenni'. Mae Law yn Llaw hefyd yn nodi, 'ochr yn ochr â rhaglenni addysg ffurfiol, rhaid i ni ystyried ffyrdd arloesol o roi gwybodaeth i gleifion i gefnogi eu cyflwr.' Mae'n cydnabod bod gan y sector gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae.

- **Argymhelliad:** Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan/ Arweinydd Clinigol Diabetes i gydweithio â Chymdeithas Gofal Sylfaenol Diabetes a sefydliadau'r trydydd sector i greu adnoddau gwybodaeth i gefnogi gofal sylfaenol wrth ddarparu deunyddiau gwybodaeth cyson i gleifion y gellir eu darparu'n rhad ac ar raddfa fawr.

Gweithio gyda chleifion i wella gwasanaethau diabetes

Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi cydnabod os oedd bwriad i wasanaethau diabetes wella, roedd angen i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru roi rhagor o ffocws ar arolygiaeth. Mewn ymateb mae Law yn Llaw at lechyd yn darparu ymrwymadau newydd cryf. Er mai un o agweddau allweddol y drefn arolygu a rheoli perfformiad newydd yw cydnabod bod ymgynghori â chleifion ac adborth yn faromedr pwysig i safon gwasanaethau lleol, ychydig iawn o fanylion a geir am sut y gellir cyflawni hyn.

- **Argymhelliad:** Yr Arweinydd Clinigol Diabetes i weithio gyda chynrychiolwyr o sefydliadau cleifion i gytuno sut y gall ffordd fwy cynhwysol a chadarn gael ei chreu er mwyn ymgynghori â chleifion a chael adborth i gefnogi'r strategaeth newydd Law yn Llaw.

YMCHWILIAD Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL I DIABETES

Clywodd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes dystiolaeth ym mis Tachwedd 2012. Roedd panel o ddeg Aelod o'r Cynulliad yn clywed dystiolaeth gan glinigwyr a rheolwyr nifer o fyrddau iechyd ledled Cymru, Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Prif Swyddog Meddygol, Prif Weithredwr GIG Cymru a sefydliadau cleifion. Yn ogystal, cafodd Cynulliad Cymru fwy o gyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau ac unigolion nac ar gyfer unrhyw ymchwiliad arall a gynhaliwyd yn 2012.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru –
Adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Mehefin 2013

Cynhyrchodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol adroddiad ym mis Mehefin 2013 yn cynnwys tri ar ddeg o argymhellion. Yn ystod trafodaeth yng Nghynulliad Cymru yn Hydref 2013 i drafod argymhellion yr adroddiad, dywedodd y Gweinidog Iechyd fod Llywodraeth Cymru yn derbyn dau o'r argymhellion mewn egwyddor (argymhelliad 3 ac 11) a'r holl argymhellion eraill yn llawn.

- **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn cael ei weithredu drwy gryfhau'r trefniadau arolygu a monitro, a bod hynny'n flaenoriaeth yn y cynllun cyflawni newydd. Credwn y dylai hyn gynnwys swydd arweinydd cenedlaethol i gydgyssylltu cynnydd byrddau iechyd wrth gyflawni'r Fframwaith, a hwyluso'r gwaith o rannu profiadau ac arferion da rhwng byrddau iechyd.
- **Argymhelliad 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gymryd camau priodol os bydd byrddau iechyd yn methu darparu'r gwasanaethau a amlinellir yn y cynllun.
- **Argymhelliad 3:** Dylai'r cynllun cyflawni newydd gynnwys y gofyniad i bob meddygfa deulu gymryd rhan yn yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol.
- **Argymhelliad 4:** Dylai cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru fynnu bod y 9 prawf iechyd blynyddol allweddol yn cael eu cynnig i bob claf â diabetes, ac y dylid monitro perfformiad byrddau iechyd yn bodloni'r gofyniad hwn drwy sicrhau eu bod yn cyfranogi'n llawn yn yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol.
- **Argymhelliad 5:** Dylai'r cynllun cyflawni ar gyfer diabetes newydd sicrhau bod perthynas Grwpiau Cynllunio a Chyflenwi ar gyfer Diabetes lleol â byrddau iechyd yn cael ei ffurfioli. Dylai Byrddau Iechyd ddangos sut y maent yn ystyried argymhellion y Grwpiau ac yn ymgysylltu'n llawn â'u gwaith. Dylid rhoi trefniadau ar waith i fabwysiadu dull cenedlaethol ar gyfer y Grwpiau, i gynnwys cylch gorchwyl cenedlaethol ar gyfer sut y maent yn gweithredu a gofyniad iddynt gyfarfod â'i gilydd i rannu arferion gorau.

- **Argymhelliad 6:** Dylai cyflwyno system rheoli cleifion â diabetes integredig fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym yn nodi'r ymrwymiad sydd eisoes wedi'i wneud i gyflwyno system o'r fath, ac yn argymhell bod amserlen glir ar gyfer ei chyflwyno yn cael ei chynnwys yn y cynllun cyflawni newydd ar gyfer diabetes.
- **Argymhelliad 7:** Dylai ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd ar diabetes yn y dyfodol adlewyrchu'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â diabetes a symptomau cynnar y clefyd.
- **Argymhelliad 8:** Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd yn cydweithio i ehangu rôl fferyllfeydd yn y gwaith o gynnal asesiadau risg, er mwyn helpu i wella'r broses o ganfod pobl â diabetes yn gynnar. Dylai fferyllfeydd hefyd allu cyfrannu'n uniongyrchol at ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd yn y dyfodol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn benodol werth cynnwys y prawf HbA1c ar gyfer cleifion presennol fel gwasanaeth ychwanegol yn rhan o'r Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol.
- **Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i fynd i'r afael â'r amrywiadau yn y ddarpariaeth addysg strwythuredig ar gyfer pobl â diabetes. Dylai'r cynllun cyflawni newydd ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ddarparu rhaglenni addysg strwythuredig sy'n cydymffurfio â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a sicrhau mynediad cyfartal i addysg briodol, amserol i bob claf ledled Cymru.
- **Argymhelliad 10:** Dylai'r therapi pwmp inswlin a'r addysg gysylltiedig angenrheidiol fod ar gael i bob ymgeisydd addas i wella ansawdd eu bywydau. Rydym yn argymhell bod cynllun cyflawni newydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys gofyniad i wella'r addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael ar ddefnyddio pypiau inswlin.
- **Argymhelliad 11:** Dylid cyflwyno'r rhaglen ThinkGlucose ym mhob bwrdd iechyd ledled Cymru.
- **Argymhelliad 12:** Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o nifer y nyrsys diabetes arbenigol sy'n gweithio ledled Cymru, a pha gyfran o'u hamser sy'n cael ei threulio ar ddyletswyddau cyffredinol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried manteision cyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd ar nifer y nyrsys diabetes a argymhellir fesul pen o'r boblogaeth.
- **Argymhelliad 13:** Llywodraeth Cymru i fonitro gallu'r Gwasanaeth Sgrinio Retinopathi Diabetig i ddarparu archwiliadau blynyddol i gleifion diabetig wrth i'r achosion cynyddol o diabetes gynyddu'r galw am y gwasanaeth.

LAW YN LLAW AT IECHYD: CYNLLUN CYFLAWNI DIABETES 2013-2016

Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn cydnabod nad yw holl elfennau pwysig y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar Diabetes (2003-2013) wedi'u gweithredu eto. Yn rhagair newydd y strategaeth, mae David Sissling, prif weithredwr GIG Cymru yn dweud 'yr hyn rydym yn ei ddisgwyl o hyn allan yw gwelliant cyflym a chyson'.

Dylid llongyfarch Llywodraeth Cymru am gymathu'r egwyddorion a ddaeth i law bron yn gyfan gwbl yn dilyn Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes a mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ar gyfer ei strategaeth Law yn Llaw at Iechyd.



Law yn Llaw at Iechyd:
Cynllun Cyflawni Diabetes
2013-2016

Mae wedi blaenoriaethu saith maes:

- Plant a Phobl Ifanc - Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â diabetes yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael cyfle i wireddu eu potensial.
- Atal diabetes - Mae pobl yn gwybod sut i fyw'n iach, gwneud dewisiadau iach sy'n lleihau eu risg o gael diabetes, ac yn deall canlyniadau peidio â gwneud hynny.
- Canfod diabetes yn gyflym - Caiff diabetes ei ganfod yn gyflym pan fydd yn digwydd.
- Darparu triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol - Mae pobl yn cael triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol fel bod ganddynt y cyfle gorau i fyw bywyd hir ac iach, gan gynnwys sicrhau bod cleifion yn cymryd cyfrifoldeb am ddewis ffordd o fyw sy'n cyfrannu mewn modd cadarnhaol at eu triniaeth a'u gofal.
- Cynorthwyo pobl i fyw â diabetes - Sicrheir bod pobl wrth wraidd gofal diabetes, a chaiff eu hanghenion unigol eu nodi a'u diwallu, er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael digon o gymorth a gwybodaeth a'u bod yn gallu rheoli effeithiau diabetes.
- Gwella gwybodaeth - Mae gan gleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol a chynllunwyr gwasanaethau fynediad i wybodaeth briodol i'w helpu i wneud penderfyniadau deallus ynghylch gofal a thriniaeth. Mae gan y cyhoedd, y GIG, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru fynediad i wybodaeth am y canlyniadau sy'n deillio o ofal y GIG.
- Targedu ymchwil - Mae mynediad i ymchwil yn gallu arwain at ganlyniadau gwell i gleifion. Rhaid i'r GIG hybu gwaith ymchwil, a sicrhau y ceir mynediad priodol i dreialon clinigol.

Roedd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi diffygion difrifol wrth asesu ac arolygu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol blaenorol ar Diabetes ac rydym yn falch o weld ymrwymiadau clir a gwelliannau yn y maes hwn. Dylid cymeradwyo sefydlu grŵp Gweithredu Cymru Gyfan ar Diabetes ac Arweinydd Clinigol Diabetes a bydd yr ymrwymiad i system rheoli cleifion newydd yn chwarae rhan bwysig wrth wella gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r ymrwymiadau i wella tryloywder cyhoeddus o ran perfformiad lleol a chenedlaethol yn fesuriadau hyderus a dewr.

- Byrddau Iechyd: cynnydd yn erbyn cerrig milltir y cynllun cyflawni lleol bob chwe mis: Ebrill 2014 a Medi 2014.
- Byrddau Iechyd: cynnydd yn erbyn cynlluniau cyflawni a dangosyddion perfformiad yn flynyddol: Mawrth 2014.
- Llywodraeth Cymru: Adroddiad Cymru Gyfan ar effeithiolrwydd gwasanaethau diabetes yn flynyddol: Hydref 2014.


CYNNYDD MEWN DIABETES

Ar hyn o bryd mae 173,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda'r cyflwr¹⁶, ac amcangyfrifir bod 60,000 yn rhagor o bobl yng Nghymru â diabetes heb yn wybod iddynt, neu heb gael diagnosis i gadarnhau hynny.¹⁷

Gallai 350,000 eraill fod mewn perygl uchel o ddatblygu diabetes¹⁸, ac mae'r niferoedd yn codi bob blwyddyn. Pe bai'r tueddiadau presennol yn parhau, erbyn 2025, amcangyfrifir y bydd 288,000 o bobl yng Nghymru â diabetes.¹⁹

Mae gan 10 y cant o bobl diabetes Math 1, a 90 y cant diabetes Math 2.²⁰

Mae **diabetes Math 1** yn datblygu os nad yw'r corff yn gallu cynhyrchu inswlin. Fel arfer mae'n dod i'r amlwg cyn 40 oed, yn enwedig yn ystod plentyndod. Hwn yw'r lleiaf cyffredin o'r ddau fath o diabetes. Ni ellir ei atal ac ni wyddir yn union pam y mae'n datblygu. Mae diabetes Math 1 yn cael ei drin trwy pigladau dyddiol o inswlin neu trwy bwmp inswlin.



Cyffredinolrwydd cynyddol yng Nghymru

Disgwylir i gyffredinolrwydd diabetes gynyddu'n sylweddol

Ardal	2010	2020	2030
Abertawe Bro Morgannwg	(5.61%)	(7.96%)	(11.3%)
Aneurin Bevan	(5.70%)	(8.09%)	(11.5%)
Betsi	(4.90%)	(6.95%)	(9.86%)
Caerdydd a'r Fro	(4.32%)	(6.13%)	(8.70%)
Cwm Taf	(5.02%)	(7.12%)	(10.11%)
Hywel Dda	(5.15%)	(7.31%)	(10.38%)
Powys	(5.03%)	(7.14%)	(10.13%)

Mae **diabetes Math 2** yn datblygu pan fydd corff yn parhau i gynhyrchu peth inswlin, ond dim digon, neu pan nad yw'r inswlin sy'n cael ei greu yn gweithio'n iawn (gelwir hyn yn ymwrthedd i inswlin). Mae diabetes Math 2 yn cael ei drin â diet iach a chynnydd mewn gweithgarwch corfforol. Yn ogystal, gall tabledi a/neu inswlin fod yn ofynnol.

Bob awr yng Nghymru mae rhywun yn canfod fod ganddo diabetes. Mae hynny'n cyfateb i 7,000 o achosion newydd bob blwyddyn²¹. Serch hynny mae'r broblem bresennol yn fach iawn wrth feddwl am yr hyn fydd yn digwydd yn y dyfodol os na fydd dim yn cael ei wneud.

Disgwylir i gyffredinolrwydd diabetes gynyddu'n sylweddol.

CYMHLETHDODAU DIABETES

Heb reolaeth ofalus a pharhaus o'r cyflwr, gall unigolyn â diabetes wynebu lleihad mewn disgwyliad oes rhwng 6 ac 20 mlynedd²². Bob blwyddyn, mae'r cyflwr yn gysylltiedig â 75,000 o farwolaethau yn y DU²³. Yng Nghymru mae hyn gyfwerth â 3,750 o farwolaethau, 1,200 yn fwy o farwolaethau na'r hyn a ddisgwylir.²⁴

Mae pobl â diabetes hefyd mewn mwy o berygl o ddatblygu un neu ragor o gymhlethdodau iechyd difrifol, sy'n gallu effeithio'n fawr ar eu hannibyniaeth, safon byw a chyfraniad economaidd.

Yng Nghymru, diabetes yw prif achos dallineb mewn pobl o oed gwaith²⁵ a phrif gyfrannwr methiant yr arennau, llawdriniaethau i gollu rhan o'r corff a chlefyd cardio fasgwlar, gan gynnwys trawiad ar y galon a strôc.²⁷

Bydd un ym mhob pump o blant â diabetes Math 1 mewn mwy o berygl o ddatblygu cetoasidosis diabetig, cyflwr difrifol sy'n peryglu bywyd ac sy'n gofyn am sylw meddygol ar frys.²⁸

Gellir osgoi llawer o'r cymhlethdodau hyn trwy asesiad risg da a diagnosis cynnar, addysg cleifion, cymorth a gwasanaethau parhaus da.

Nid oes angen i lawer o'r cymhlethdodau hyn ddigwydd.

Mae graddfa cynnydd y cyflwr yn frawychus, yn yr un modd â'r costau gofal a thriniaeth cysylltiedig. Amcangyfrifwyd bod gwariant GIG Cymru ar diabetes tua £500miliwn yn 2012³⁰, neu 10 y cant o gyllideb GIG Cymru. Mae 80 y cant o wariant y GIG ar diabetes yn cael ei wario ar reoli cymhlethdodau y gellir eu hosgoi.³¹

Mae'r goblygiadau ar gyfer gwariant y GIG yn frawychus, wrth ystyried bod pobl â diabetes yn cynrychioli oddeutu 15-19 y cant o gleifion mewno³² ar unrhyw adeg, ac maent yn aros tri diwrnod yn hirach ar gyfartaledd na phobl heb diabetes. Mae'r mwyafrif o gostau diabetes Math 2 oherwydd cyfnodau yn yr ysbyty.


Yn y DU, rhwng 2006 a 2010, cafwyd cynnydd mewn cymhlethdodau diangen²⁹.



RETINOPATHI



STRÔC



METHIANT
YR ARENNAU



METHIANT
Y GALON



ANGINA



LLAWDRINIAETHAU
I GOLLI RHAN
O'R CORFF

ATAL A CHANFOD YN GYNNAR – DIABETES MATH 2

Fel yr ydym wedi dangos, mae Cymru yn wynebu cynnydd anferthol yn nifer y bobl â diabetes Math 2. Ers 2006, mae nifer y bobl yng Nghymru a gafodd ddiagnosis o diabetes wedi cynyddu o 125,000 i 173,000.³³

Erbyn 2025 amcangyfrifir y bydd hyn yn cynyddu i 288,000.³⁴


Mae cyffredinolrwydd diabetes bron tair gwaith cymaint na chyffredinolrwydd pob cancer gyda'i gilydd ac mae'n dal i gynyddu. Os ydym am reoli'r argyfwng iechyd hwn a lleihau marwolaethau oherwydd diabetes a'i gymhlethdodau, mae'n rhaid blaenoriaethu ymwybyddiaeth, canfod cynnar ac atal diabetes.

Mae tua 60,000 o bobl â diabetes Math 2 yn parhau heb ddiagnosis³⁵, ac efallai y byddant yn dangos arwyddion datblygedig cynnar o retinopathi, niwropathi neu glefyd rhydweiliol. Ar gyfartaledd, dim ond 75 y cant o achosion disgwylidig diabetes sy'n cael eu canfod³⁶ ac mae'r bwch rhwng y gyfradd o achosion sy'n cael eu canfod a'r rhai disgwylidig yn araf iawn yn cau.

Mae cynllun newydd Llywodraeth Cymru, Ychwanegu at Fywyd yn cael ei lansio yn 2014. Mae gan y prawf iechyd blynyddol elfen Sgôr Risg Diabetes UK integredig. Bydd yr holl bobl sy'n ymgymryd â'r prawf iechyd newydd yn cael asesiad risg ac yn cael gwybodaeth am y llwybr priodol.

Mae'r gofyniad i weithredu ar frys wedi'i gydnabod gan Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes (2012) a'r Ymchwiliad i Rôl Gwasanaethau Fferyllfeydd yn y Dyfodol (2012). Mae'r ddau ymchwiliad wedi argymhell y dylai fferyllfeydd chwarae rhan fwy pwysig wrth asesu risg diabetes ac ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus. Yn fwy penodol, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried gwerth cynnwys y prawf HbA1c ar gyfer cleifion sydd â'r cyflwr eisoes fel ychwanegiad at y gwasanaethau yn rhan o'r Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol.

Mae Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan wedi cytuno y dylid mabwysiadu ymateb mwy cydlynol i atal diabetes. Mae'r grŵp wedi nodi'r mater hyn yn un o'i bedwar ffrwd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2014. Gyda lefelau mor uchel o bobl heb ddiagnosis, mae'n glir y byddai'r system bresennol yn elwa ar ychwanegu strategaethau a dulliau newydd. Erbyn iddynt gael diagnosis, mae 50 y cant o bobl â diabetes Math 2 yn dangos arwyddion o gymhlethdodau.³⁷



CANFOD YN GYNNAR – DIABETES MATH 1

Ni ellir atal diabetes Math 1. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau diabetes, a'i ganfod yn gynnar hefyd yn hanfodol i sicrhau nad yw plant ac oedolion sy'n datblygu'r cyflwr yn mynd yn ddifrifol sâl â Ketoacidosis Diabetig, lle gall lefel annormal o uchel o glwcos yn y gwaed arwain at goma neu farwolaeth, a gall lefel uchel o glwcos yn y gwaed arwain at niwed cynnar i'r organau os na fydd yn cael ei drin yn gyflym a'i reoli.

Mae data o'r Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol yn dangos bod diagnosis ar gyfer 25 y cant o blant a phobl ifanc â diabetes Math 1 yn Lloegr a Chymru yw trwy eu bod yn datblygu Cetoasidosis Diabetig ac angen triniaeth ar frys.³⁸

Er mwyn helpu rhieni a gweithwyr iechyd proffesiynol i adnabod diabetes Math 1, mae Diabetes UK wedi datblygu'r cynllun 4T

- **Toiled** – Mynd i'r tŷ bach yn aml, plentyn sy'n arfer bod yn sych gyda'r nos yn gwlychu'r gwely neu gewynnau trymach gan fabanod
- **Teimlo'n Sychedig** – Yn sychedig iawn a methu torri'r syched hwnnw
- **Teimlo'n Flinedig** – Teimlo'n fwy blinedig nag arfer
- **Teneuach** – Colli pwysau neu edrych yn deneuach nag arferl

Mae Diabetes UK hefyd wedi cynhyrchu poster llwybr gofal 4T i helpu gweithwyr iechyd proffesiynol roi diagnosis o diabetes Math 1 yn gynnar ac yn gyflym. Rydym yn gobeithio gweithio'n agosach â'r Gymdeithas Gofal Sylfaenol Diabetes a grŵp Diddordeb Pediatrig Cymru Gyfan i godi ymwybyddiaeth ymhlith doctoriaid a nyrsys i helpu i ganfod diabetes yn gynt a rhoi diagnosis.

SAFONAU GOFAL OEDOLION

Mae pob unigolyn â diabetes i fod i dderbyn rhaglen wedi'i chynllunio o brofion iechyd blynyddol sy'n cael eu hargymell yn genedlaethol. Dylai hyn fod yn rhan o gynllun gofal personol sy'n eu galluogi nhw a'u gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gytuno gweithredoedd ar y cyd ar gyfer rheoli eu diabetes.

Yn deillio o ganllawiau NICE ar diabetes, ceir naw proses gofal allweddol:

- 1.** Mesur lefel y glwcos yn y gwaed
- 2.** Mesur pwysedd gwaed
- 3.** Mesur lefel colesterol
- 4.** Sgrinio retinol
- 5.** Gwirio'r coesau a'r traed
- 6.** Profi gweithrediad yr arennau (wrin)
- 7.** Profi gweithrediad yr arennau (gwaed)
- 8.** Gwirio pwysau
- 9.** Gwirio statws ysmegu.

Nododd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes ei fod am weld gwelliant sylweddol a llai o amrywioldeb o ran darparu'r naw proses gofal allweddol. Mae wedi awgrymu y dylai cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i holl gleifion diabetes gael cynnig y naw prawf iechyd allweddol yn flynyddol, ac y dylid monitro perfformiad byrddau iechyd yn bodloni'r gofyniad hwn drwy sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn yn yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol.

Mae Law yn Llaw: Cynllun Cyflawni Diabetes wedi cyflwyno mesur perfformiad newydd yn ei adroddiad blynyddol. Bydd yn ofynnol i'r holl fyrddau iechyd adrodd am '% y bobl â diabetes sy'n cael yr holl fesuryddion dangosyddion allweddol i fesur diabetes'.

Mae llawer o waith i'w wneud. Mae 57% o oedolion â diabetes Math 1, a 37.4% o oedolion â diabetes Math 2 yn methu â chael y profion blynyddol a'r archwiliadau a argymhellir yn y safonau cenedlaethol.³⁹ Ychydig iawn o welliant a gafwyd dros y tair blynedd diwethaf.

LLEIHAU AMRYWIOLDEB GWASANAETHAU DIABETES


Bydd gan ganolfannau meddyg teulu ac ardaloedd iechyd lleol heriau gwahanol wrth ddarparu gofal effeithiol ar gyfer eu cymunedau. Fodd bynnag, mae'r amrywioldeb o ran profion iechyd sylfaenol a'r deilliannau a geir o ran darparu gwasanaethau diabetes yn annerbyniol o fawr. Byddai mynd i'r afael â'r amrywioldeb sylweddol rhwng byrddau iechyd gwahanol a darpariaethau canolfannau Meddyg Teulu gwahanol yn yr un byrddau iechyd yn gallu arwain at welliannau sylweddol mewn gofal ledled y grŵp poblogaeth gyfan.

Mae'r naw prawf iechyd blynyddol yn cynrychioli'r rhyngwyneb allweddol i bobl â diabetes a'u tîm clinigol. Os nad yw'r profion yn digwydd ac os nad yw cleifion yn cael cymorth i gadw eu targedau triniaeth o fewn lefel ddiogel, mae cymhlethdodau micro-fasgwlar a macro-fasgwlar yn anrffod.

Mae o gryn bryder bod darpariaeth y profion a'r cleifion sy'n cyrraedd y lefelau targedau triniaeth cryn dipyn yn waeth ar gyfer pobl â diabetes Math 1.

Roedd yn siomedig na chafodd yr ymrwymiad i gyflawni cynllun gofal personol ar gyfer pobl â diabetes yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar Diabetes ei roi ar waith. Mae'r gofyniad am gynllun gofal personol i reoli'n well y naw prawf iechyd a chydymffurfiaeth â'r targedau triniaeth wedi'u hailadrodd yn Law yn Llaw: Cynllun Cyflawni Diabetes. Mae byrddau iechyd bellach yn gorfod adrodd am eu darpariaethau.

Mae'r dangosydd perfformiad penodol yn nodi, '% y bobl â diagnosis o diabetes sy'n fodlon â'u cynllun gofal personol'.



Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2011-2012

15

**ELFEN HANFODOL
GOFAL IECHYD**

Yn ogystal â'r naw proses gofal allweddol, mae gwasanaethau allweddol eraill a chymorth ar gael y dylai pobl â diabetes gael mynediad iddynt. Mae Diabetes UK wedi nodi'r safonau eraill hyn o ofal da a'u halinio â'r naw proses gofal allweddol er mwyn cynhyrchu ein 15 Efen Hanfodol Gofal Iechyd.

Un o'r rhesymau dros ddatblygu'r hanfodion hyn yw galluogi pobl â diabetes a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i wybod pa ofal y dylai pobl â diabetes ddisgwyl ei gael. Mae sicrhau bod y prosesau gofal allweddol yn cael eu cyflawni a bod pobl yn gwybod yr hyn i'w ddisgwyl yn un o'r ffyrdd o wella deilliannau cysylltiedig a rheoli diabetes. Ers ei lansio ym mis Medi 2011, rydym yn amcangyfrif bod 15 Efen Hanfodol Gofal Iechyd Diabetes UK wedi cael eu gweld gan dros 1 miliwn o bobl â diabetes ledled y DU. Mae tua 8,000 o bobl hefyd wedi ymateb i arolwg ar-lein yn dweud wrthym a oeddent wedi cael pob un o'u prosesau allweddol neu wedi cael cynnig y gwasanaethau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn diwethaf, gan roi manylion i ni am eu profiadau.

- 1. HbA1c:** Cael eich lefelau glwcos yn y gwaed (HbA1c) wedi'u mesur o leiaf unwaith y flwyddyn.
- 2. Pwysedd Gwaed:** Cael eich pwysedd gwaed wedi'i fesur a'i gofnodi o leiaf unwaith y flwyddyn.
- 3. Colesterol:** Cael y braster yn eich gwaed (colesterol) wedi'i fesur bob blwyddyn.
- 4. Sgrinio Retinol:** Cael eich llygaid wedi'u sgrinio bob blwyddyn am arwyddion o retinopathi.
- 5. Gwario'r traed:** Cael eich coesau a'ch traed wedi'u gwirio – dylid archwilio'r croen, y cylchrediad a chyflenwad y nerfau yn eich coesau yn flynyddol.
- 6. Gweithrediad yr arennau:** Cael gweithrediad eich arennau wedi'u monitro'n flynyddol.
- 7. Pwysau:** Cael eich pwysau wedi'i wirio, a mesur eich canol i weld a oes arnoch angen colli pwysau.
- 8. Ysmygu:** Mynnwch gymorth os ydych yn ysmygwr, gan gynnwys cyngor a chymorth ar sut i roi'r gorau iddi.
- 9. Cynllunio Gofal:** Derbyn gofal cynllunio i fodloni eich anghenion unigol.
- 10. Addysg:** Mynd ar gwrs addysg i'ch helpu i ddeall a rheoli eich diabetes.
- 11. Gofal Pediatrig:** Cael gofal pediatrig os ydych yn blentyn neu'n berson ifanc.
- 12. Gofal Cleifion Mewnol:** Derbyn gofal o safon uchel os ydych yn cael eich derbyn i'r ysbyty.
- 13. Gofal Beichiogrwydd:** Cael gwybodaeth a gofal arbenigol os ydych yn bwriadu cael babi.
- 14. Gofal Arbenigol:** Gweld gweithwyr proffesiynol gofal iechyd diabetes i'ch helpu i reoli eich diabetes.
- 15. Cymorth Emosiynol:** Cael cymorth emosiynol a seicolegol.



1-3 HbA1c, Pwysedd Gwaed A Cholesterol

Bydd profion rheolaidd **HbA1c** yn cyfrannu at reoli diabetes yn effeithiol dim ond os ydynt yn rhan o system ofal gynhwysfawr lle mae pobl yn derbyn yr holl brosesau gofal allweddol.

- **Math 1** – Mae 83% o bobl â Diabetes Math 1 wedi cael prawf HbA1c rheolaidd. FODD BYNNAG, 27% yn unig sy'n llwyddo i gyrraedd yr ystod targed a argymhellir ar gyfer eu HbA1c.⁴⁰
- **Math 2** – Mae 91.3% o bobl â diabetes Math 2 wedi cael prawf HbA1c rheolaidd. FODD BYNNAG, 66% yn unig sy'n llwyddo i gyrraedd yr ystod targed a argymhellir ar gyfer eu HbA1c.⁴¹


Mae rheolaeth wael o **bwysedd gwaed** yn rhoi pobl mewn perygl gwirioneddol o ddatblygu clefyd y galon, ac yn benodol yn cynyddu'r risg o gael strôc.

- **Math 1** – Mae dros 88% o bobl â diabetes Math 1 yn cael prawf pwysedd gwaed. FODD BYNNAG, 58% yn unig o bobl sy'n llwyddo i gyrraedd eu targed pwysedd gwaed.⁴²
- **Math 2** – Mae 96% o bobl â diabetes Math 2 yn cael prawf pwysedd gwaed. FODD BYNNAG, 47% yn unig o bobl sy'n llwyddo i gyrraedd eu targed pwysedd gwaed.⁴³



Mae rheolaeth wael o **golesterol** hefyd yn cynyddu'r risg o ddatblygu clefyd cardiofasgwlar, ac yn cynyddu'r risg o glefyd y galon a strôc.

- **Math 1** – Mae 78% o bobl â diabetes Math 1 yn cael prawf colesterol. FODD BYNNAG, 30% yn unig o bobl sy'n llwyddo i gyrraedd eu targed colesterol.⁴⁴
- **Math 2** – Mae 92% o bobl â diabetes Math 2 yn cael prawf colesterol. FODD BYNNAG, 41% yn unig o bobl sy'n llwyddo i gyrraedd eu targed colesterol.⁴⁵



4 SGRINIO RETINOL

Mae **Retinopathi** (niwed i'r retina neu ddarn y llygad sy'n gweld) yn gymhlethdod sy'n gallu effeithio ar unrhyw un â diabetes. Dylai pobl gael cynnig apwyntiad sgrinio'r llygaid pan fydd diagnosis o diabetes ac unwaith bob 12-15 mis (Canllawiau'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol).

Retinopathi yw'r achos mwyaf cyffredin o ddallineb ymhlith pobl o oed gwaith yn y DU.

- Roedd 168,500 o gleifion â diabetes yn gymwys i gael eu sgrinio (2012/2013).⁴⁶
- Gwahoddwyd 136,400 i gael eu sgrinio a chafodd 110,800 eu sgrinio – sef 81% o'r rheini a gafodd wahoddiad (2012/13).⁴⁶
- Y gyfradd ar gyfer y rheini nad oedd yn bresennol oedd 20.19%.⁴⁶
- Roedd nifer yr achosion o retinopathi ymhlith cyfanswm y boblogaeth a gafodd eu sgrinio yn 30%.⁴⁶
- Yn 2012/2013 cyfanswm cyfradd y cyfeiriadau at Wasanaethau Llygaid yr Ysbyty oedd 2.93% - 1.9% ar gyfer Retinopathi Diabetig a 1.03% ar gyfer anafiadau nad oeddent yn Retinopathi Diabetig.⁴⁷

5 GWIRIADAU TRAED

MAE GAN BOBL Â DIABETES SY'N GORFOD COLLI RHAN O'R CORFF NEU SYDD AG WLSER TROED DEBYGOLIAETH UWCH CYMHAROL O HYD AT 80 Y CANT O FARW YMHEN PUM MLYNEDD, SY'N FWY NA CHANSER Y COLUDDYN (49 Y CANT), CANSER Y BROSTAD (20 Y CANT) NEU GANSER Y FRON (17 Y CANT).⁵⁶

Gall diabetes arwain at **gylchrediad gwael a llai o deimlad yn y traed a'r coesau**. Mae pobl â diabetes yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbty ag wlsur troed nac unrhyw gymhlethdod arall o diabetes. Amcangyfrifir bod gan tua 2,000 o bobl â diabetes yng Nghymru wlsur traed ar unrhyw un adeg.⁴⁸

Mae pobl â diabetes yng Nghymru 30 gwaith yn fwy tebygol o golli rhan o'r corff o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.⁴⁹

- Nid oedd 27% o bobl â diabetes Math 1 a 13% o bobl â diabetes Math 2 yn Lloegr a Chymru wedi cael gwiriad traed yn ystod 2011-2012.⁵⁰
- Cyflawnir tua 330 o lawdriniaethau i golli rhan o'r corff bobl blwyddyn yng Nghymru.⁵¹
- Mae hyd at 80 y cant o'r rhain yn achosion y gellid eu hatal pe bai pobl yn rheoli eu cyflwr yn gywir.⁵²
- Amcangyfrifir bod £30-£35 miliwn yn cael ei wario bob blwyddyn yng Nghymru ar wlsurau traed a llawdriniaethau i golli rhan o'r corff.⁵³
- Nid oedd gan 53% o ysbyswyr yng Nghymru fynediad i dîm gofal traed amlddisgyblaethol.⁵⁴
- 21.7% yn unig o gleifion a gafodd archwiliad o'r traed wedi'i gofnodi ar ôl cael eu derbyn i'r ysbty.⁵⁵

Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn ymrwymo byrddau iechyd i gynnig y canlynol i gleifion

- Asesiad blynyddol o'u traed.
- Asesiad o'u traed pe baent yn mynd i'r ysbty.
- Bydd yr holl gleifion â phroblem traed sy'n gysylltiedig â diabetes yn cael eu cyfeirio at dîm gofal traed amlddisgyblaethol cyn pen 24 awr.

Bydd cynnydd yn yr arolygu yn sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd angen i bob bwrdd iechyd adrodd yn flynyddol ar 'y % o bobl ag wlsur troed newydd a % y bobl â diabetes sy'n gysylltiedig â llawdriniaeth i golli darn o'r corff'.

Yn 2014, bydd yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol hefyd yn lansio adran newydd ar ofal traed gan gynyddu ffocws ar ddata'r byrddau iechyd yn y maes hwn.

Mae Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan wedi cydnabod bod gofal traed yn faes sy'n mynnu sylw.

Bydd gweithredu Rhoi eich Traed yn Gyntaf yn ffrwd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2014.

6

GWEITHREDIAD YR ARENNAU

YN 2010-11, 59% YN UNIG O BOBL Â DIABETES MATH 1 A 78% O BOBL Â DIABETES MATH 2 GAFODD BRAWF AR WEITHREDIAD EU HARENNAU FEL RHAN O'U PROFION BLYNYDDOL.⁵⁷

Mae **clefyd yr arenau'n** fwy cyffredin ymhlith pobl â diabetes a phobl â phwysedd gwaed uchel. Yn ystod yr adolygiad blynyddol, dylid cynnal profion i weld pa mor dda y mae'r arenau'n gweithio. Mae pobl â methiant yr arenau angen gofal a rheolaeth arbenigol a drud iawn.

Er bod mwy o bobl yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael profion gweithrediad eu harenau, mae cyffredinolrwydd methiant yr arenau'n cynyddu bob blwyddyn.


Amcangyfrifir bod costau dialysis fesul unigolyn yng Nghymru yn £22,224.⁵⁸

Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn cydnabod mai diabetes yw'r achos fwyaf cyffredin o bobl yn dechrau dialysis yr arenau. Mae'r cynllun yn nodi'r angen am 'lwybr clir', sy'n pwysleisio pwysigrwydd gofal sylfaenol wrth fonitro cleifion â chlefyd yr arenau sefydlog cronig.

Bydd yn ofynnol i'r holl fyrddau iechyd adrodd am fesurydd perfformiad newydd blynyddol,

- % y bobl â diabetes sy'n cyrraedd clefyd yr arenau cyfnod olaf neu angen therapi adfer arenol.

Canran y cleifion â diabetes yn Lloegr a Chymru sy'n cael profion albwmn wrin a argymhellwyd gan NICE, 2012



Ffynhonnell: Data o adroddiad Prosesau Gofal a Thriniaethau Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2012

7 PWYSAU

Dangosodd Arolwg Iechyd Cymru 2011 bod 59% o boblogaeth Cymru dros bwysau neu'n ordew.⁵⁹ 29% yn unig a nododd eu bod yn gorfforol weithgar ar bum diwrnod neu ragor yn ystod yr wythnos ddiwethaf a nododd 33% o oedolion eu bod wedi bwyta pump neu ragor o ffrwythau a llysiau'r diwrnod blaenorol.

Mae colli pwysau i unigolyn sydd dros bwysau neu'n ordew â **diabetes Math 2** yn fodd effeithiol o wella rheolaeth lefelau siwgr a lleihau ffactorau risg cardiofasgwlar ac mae colli pwysau'n gysylltiedig â gostyngiad o 25 y cant mewn marwolaethau.⁶⁰

Mae Archwiliad Cenedlaethol Data Diabetes 2011/12 yn dangos bod tua 84% o bobl â Diabetes Math 1 a 91% o bobl â diabetes Math 2 wedi cael prawf pwysau, ond nid yw llawer o bobl yn cael cymorth digonol i gymryd camau tuag at gollu pwysau.

Roedd 40% o bobl â diabetes oedd yn ordew, yn ddifrifol ordew neu'n ordew iawn yn methu â chadw eu diabetes o dan reolaeth (HBA1c>7.5).⁶¹

Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn cydnabod yn ogystal â chleifion yn cymryd cyfrifoldeb personol, mae dull cydlynol o fwyta'n iach a gweithgarwch corfforol yn hanfodol.

Mae bod dros bwysau neu'n ordew yn cael effaith ddifrifol ar iechyd ac mae'n cyfrannu at ystod eang o gyflyrau iechyd a salwch. Mae'n synhwyrol bod strategaethau ar gyfer pobl sy'n byw â diabetes i'w helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn yn digwydd trwy raglenni a chynlluniau mawr cenedlaethol.

Trwy eu Cynlluniau Gweithredu Diabetes Lleol, mae'r byrddau iechyd yn cael eu cyfarwyddo i ddefnyddio cynlluniau cenedlaethol megis:


- **Ychwanegu at Fwyd** (Prawf Iechyd a Lles i'r rhai dros 50 oed) – prawf iechyd blynyddol yn cynnwys elfen bwysau i bawb dros 50 oed yng Nghymru.
- **Cymru Iach ar Waith** – ystod o gynlluniau sy'n darparu gwybodaeth a chanllawiau ar sut i fabwysiadu ffordd o fyw iach yn y gwaith.
- **Newid am Oes** – cyngor i unigolion ar fwyta'n iach a mabwysiadu ffordd o fyw iach.
- **Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan** – llwybr i gleifion a ddilynir gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n cyfeirio pobl at gyngor ynglŷn â ffordd o fyw a diet.

8 YSMYGU

Mae cael diabetes eisoes yn golygu bod gan bobl risg gynyddol o glefyd y galon a strôc, ac mae ysmegu'n cynyddu'r risg hwn ymhellach. Dylai pobl â diabetes gael cymorth os ydynt yn ysmygwyr, gan gynnwys cyngor a chymorth ar sut i roi'r gorau iddi.

- Yn Arolwg Iechyd Cymru 2011, dywedodd 23% o oedolion eu bod yn ysmegu.⁶²
- Mae arolwg ASH/YouGov 2013 yn dangos cefnogaeth gref am ragor o wasanaethau lleol i helpu atal ysmegu, gydag 82% yn dueddol o gefnogi neu'n cefnogi'n gryf fynediad i wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu yn y GIG/Dim Smygu Cymru.⁶³

Statws ysmegu pobl â diabetes, cofrestrïadau gofal sylfaenol yn Lloegr a Chymru 2011-2012



Ffynhonnell: Data o adroddiad Prosesau Gofal a Thriniaethau Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2012

9 CYNLLUNIO GOFAL

YN CAEL EI GYDNABOD YN HANFODOL ER MWYN BODLONI ANGHENION UNIGOL POBL Â DIABETES ER MWYN CYFLAWNI PROSESAU A DEILLIANNAU, OND ANAML IAWN Y MAE HYN YN DIGWYDD YN EFFEITHIOL

Dylai pobl gael gofal wedi'i gynllunio er mwyn bodloni eu hanghenion unigol a'u cefnogi i hunan reoli. Maent yn byw gyda diabetes yn ddyddiol a dylent gael y cyfle i roi eu barn ar bob agwedd o'u gofal.




Yn 2012, roedd y mwyafrif o fyrddau iechyd wedi adrodd nad oeddent wedi llwyddo i ddarparu cynlluniau gofal personol i bobl â diabetes. Pan fo cynlluniau gofal sy'n cael eu rhannu yn bodoli, maent yn cael eu darparu mewn ardaloedd unigol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, nid oes dull cenedlaethol yn bodoli.

Mae Diabetes UK yn cynnal arolygon rheolaidd o bobl â diabetes i ganfod sut y maent yn byw gyda diabetes. Roedd arolwg diweddar wedi archwilio materion yn ymwneud â hunan reoli.⁶⁴

- Nid oedd 60% o bobl â diabetes yn deall eu diagnosis na'u meddyginiaeth.
- Nid oedd 65% yn cymryd eu meddyginiaethau yn ôl y presgripsiwn.

Mae'r gofyniad ar gyfer cynllun gofal personol i reoli naw prawf iechyd pobl yn well a gwella'r lefelau gwael o gydymffurfiaeth â'r targedau triniaeth wedi'u nodi yn Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes. Bellach mae dyletswydd ar fyrddau iechyd i adrodd am eu darpariaeth.

Mae'r dangosydd perfformiad penodol yn nodi, '% y bobl â diagnosis o diabetes sy'n fodlon â'u cynllun gofal personol'.



10 ADDYSG A CHYMORTH HUNAN REOLI

Mae **Addysg Strwythuredig am Diabetes** yn elfen allweddol i alluogi pobl i hunan reoli eu diabetes yn dda. Mae canllawiau NICE yn nodi y dylai pawb â diabetes gael cynnig Addysg Strwythuredig am Diabetes. Mae Gwerthusiad Technoleg 60 (TA60) yn nodi'n glir bod darpariaeth Addysg Strwythuredig am Diabetes i bobl â diabetes Math 1 yn ofyniad cyfreithiol i Lywodraeth Cymru. Cafodd TA60 ei orfodi'n gyfreithiol yn 2006.

Roedd Cais Rhyddid Gwybodaeth yn 2010 wedi canfod mai 2.7% o bobl â diabetes Math 1 a 1.4% â diabetes Math 2 oedd wedi cael Addysg Strwythuredig am Diabetes yn ystod y flwyddyn honno.

Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi argymhell, 'y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ar frys â'r amrywiannau yn y ddarpariaeth addysg strwythuredig i bobl â diabetes. Dylai'r cynllun cyflawni arfaethedig ei wneud yn ofynnol i'r holl fyrddau iechyd ddarparu rhaglenni addysg strwythuredig sy'n cydymffurfio â NICE ac sy'n sicrhau mynediad cyfartal i addysg briodol ac amserol i'r holl gleifion ledled Cymru'.

Mae Fframwaith Canlyniadau Ansawdd 2013/14 wedi sefydlu dangosydd ar gyfer cyfeirio at raglen Addysg Strwythuredig am Diabetes cyn pen 9 mis o gyrraedd y gofrestr diabetes.

Mae **Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes** yn cynnwys mesurydd perfformiad ar gyfer yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae'n nodi 'Mae'n hanfodol bod gan fyrddau iechyd raglenni addysg strwythuredig ar waith er mwyn darparu ar gyfer y bobl a gaiff eu cyfeirio atynt'.

Mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd adrodd yn gyhoeddus '% y plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n cael Addysg Strwythuredig am Diabetes cyn pen naw mis o ddiagnosis'.

Mae Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru Gyfan wedi cytuno y bydd ymgyrch genedlaethol i wella darpariaeth addysg strwythuredig am diabetes yn elfen bwysig o'i ffrydiau gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2014.

Mae'r Gweinidog Iechyd hefyd wedi nodi bod angen 'ystod o addysg er mwyn sicrhau bod gennym restr eang o raglenni'.

Mae Law yn Llaw at Iechyd yn nodi, 'ochr yn ochr â rhaglenni addysg ffurfiol, rhaid i ni ystyried ffyrdd arloesol o roi gwybodaeth i gleifion i gefnogi eu cyflwr'.

Mae Diabetes UK yn cynnig bod Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan / Arweinydd Clinigol Diabetes yn cydweithio â Chymdeithas Gofal Sylfaenol Diabetes a sefydliadau'r trydydd sector i greu adnoddau gwybodaeth i gefnogi gofal sylfaenol wrth ddarparu deunyddiau gwybodaeth cyson i gleifion yn economaidd ac ar raddfa fawr.



Just Diagnosed leaflet

11

GOFAL DIABETIG PEDIATRIG

Dylai plant a phobl ifanc â diabetes gael gofal pediatriig o safon uchel, gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd diabetes pediatriig arbenigol. Pan fydd yr amser yn dod i adael gofal pediatriig, dylent wybod yn union yr hyn fydd yn digwydd er mwyn iddynt drosglwyddo yn esmwyth i wasanaethau gofal iechyd oedolion.

Mae Diabetes UK wedi cynhyrchu gwybodaeth i rieni a phlant yn esbonio'r hyn ddylai fod ar gael er mwyn darparu gofal a chymorth effeithiol iddynt.

Yn aml, nid yw'r gofal arbenigol y mae arnynt ei angen ar gael bob amser, gan eu rhoi mewn perygl o ddatblygu cymhlethdodau yn hwyrach yn eu bywydau. Ar hyn o bryd y DU yw un o'r gwledydd sy'n perfformio waethaf yn Ewrop o ran lefelau glwcos yn y gwaed plant â diabetes.


Yn 2010/11 15 y cant yn unig o blant a phobl ifanc â diabetes gafodd eu holl brofion blynyddol.⁶⁵ Bellach mae gan dros 82 y cant o blant a phobl ifanc dros 12 oed lefelau glwcos sy'n uwch na'r targedau a argymhellir.⁶⁶

Mae 15.5 y cant o blant a phobl ifanc yn Lloegr a Chymru wedi cael un achos o Cetoasidosis Diabetig* yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae 10.4 y cant o blant a phobl ifanc wedi cael dau neu'n ragor o achosion o Cetoasidosis Diabetig yn ystod y bum mlynedd diwethaf.⁶⁷

Mae **Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes** yn sefydlu ystod newydd o ymrwymadau i'r byrddau iechyd er mwyn sicrhau cynnydd mewn gofal diabetes pediatriig. Yn ogystal â llwybr gofal sy'n darparu'r profion clinigol hanfodol ar gyfer plant a phobl ifanc â diabetes a mynediad i raglen addysg strwythuredig am diabetes, mae'r cynllun yn ymrwymo i sefydlu rhaglen sicrhau ansawdd / rhwydwaith adolygiad gan gydweithwyr trwy gyfrwng Grŵp Diddordeb Pediatriig Cymru Gyfan.

*Mae Cetoasidosis Diabetig yn gyflwr difrifol sy'n peryglu bywyd a achosir gan lefelau glwcos uchel am gyfnod hir (hyperglycaemia) sy'n gofyn am sylw meddygol ar frys.

% y plant a'r bobl ifanc â diabetes sy'n cael prosesau gofal allweddol (Lloegr a Chymru)



Ffynhonnell: Data o Archwiliad Diabetes Pediatriig Cenedlaethol



Math 1 Rhestr wirio hanfodion

12 GOFAL CLEIFION MEWNOL

Mae gan tua 5% o boblogaeth Cymru diabetes ond ar unrhyw un adeg, mae pobl â diabetes yn gyfrifol am 15-19 y cant o'r holl gleifion mewnol sy'n cael gofal yn ysbytai Cymru.⁶⁸

Gallant fod yn yr ysbyty am unrhyw reswm; fodd bynnag dylai eu diabetes gael ei reoli gan fewnbwn diabetes arbenigol. Gall bod yn yr ysbyty neu gael trefn newydd effeithio ar reolaeth pobl o'u diabetes ac mae pobl â diabetes yn dueddol o aros yn hirach yn yr ysbyty o'u cymharu â phobl heb diabetes.

- Roedd 21% o gleifion wedi cael archwiliad o'u traed a'i gofnodwyd ar unrhyw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty.⁶⁹
- Nid oedd gan 47.1% o ysbytai nyrsys arbenigol diabetes ar gyfer cleifion mewnol.⁷⁰
- Nid oedd gan 64.7% o safleoedd ddarpariaeth dieteg arbenigol i gleifion mewnol â diabetes.⁷¹
- Roedd 36.7% o gleifion â diabetes wedi cael profiad o gamgymeriad meddygol o leiaf unwaith.⁷²

MAE POBL Â DIABETES ANGEN MEWNBWN ARBENIGOL PAN FYDDANT YN MYND I'R YSBYTY, OND MAE DARPARIAETH CYMORTH ARBENIGOL I GLEIFION MEWNOL YN ISEL

Yn 2012, roedd Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru⁷³ wedi cynhyrchu adroddiad yn cynnwys argymhellion yn dilyn achlysur penodol yn ymwneud â gofal diabetes i gleifion mewnol mewn bwrdd iechyd yng Nghymru. Cyflwynwyd yr argymhellion a oedd yn ymwneud â hyfforddiant nyrsys, rheoli glwcos yn fwy effeithiol ac arferion diogel ar y ward i'r holl fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae'r adroddiad wedi ennyn yr ymateb canlynol:

- Mewn ymateb i adroddiad yr Ombwdsman, mae Arolygiaeth Iechyd Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r dystiolaeth o'r arolwg yn ei threfniadau a gafodd eu diwygio er mwyn asesu'n fwy manwl gofal cleifion mewnol â diabetes a chynhyrchu adroddiad trosolwg ar safon rheoli cleifion mewnol â diabetes ledled Cymru.
- Yn sgil pryder am y lefel isel o ymwybyddiaeth a hyfforddiant diabetes a nodwyd yn yr adroddiad, mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn ymrwymo'r holl fyrddau iechyd yn g Nghymru i sefydlu rhaglen addysg dreigl i weithwyr proffesiynol gofal iechyd.
- Mae Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi argymhell y dylai'r rhaglen 'ThinkGlucose gael ei chyflwyno i'r holl fyrddau iechyd ledled Cymru'.
- Mae'r Gweinidog Iechyd wedi cytuno bod angen gweithredu. Nid yw Llywodraeth Cymru yn fodlon cyfeirio'r holl fyrddau iechyd at fabwysiadu ThinkGlucose (mae'n gynnyrch masnachol) ond mae wedi cynghori'r byrddau iechyd i fabwysiadu'r hyn y mae cynnyrch ThinkGlucose yn ei wneud a chyflwyno eu gweithdrefnau newydd trwy gyfrwng fframwaith yr ymgyrch 1000 o Fwyddau a Mwy.

13

GOFAL BEICHIOWRWDYDD

Mae cael plant yn benderfyniad mawr i unrhyw un. Mae llawer o fenywod â diabetes (Math 1, Math 2 neu diabetes yn ystod beichiogrwydd*) yn cael beichiogrwydd iach a babanod iach ond mae'n gofyn am lawer o waith ac ymrwymiad. Dylent weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ystod bob cam.

Mae Diabetes UK wedi cyhoeddi canllawiau penodol ac argymhellion gofal ynghylch rheol gofal cyn-geni a beichiogrwydd mewn menywod â diabetes, er mwyn sicrhau eu bod yn cael rheolaeth a chymorth o'r safon uchaf gan dîm amlddisgyblaethol â phrofiad mewn diabetes a gofal obstetreg.

Yn adroddiad Diabetes UK Cymru Cyflwr y Genedl 2012, galwodd yr elusen am y canlynol:

Dylai pob menyw â diabetes sy'n cynllunio dod yn feichiog gael mynediad i gymorth arbenigol a chyngor wrth gynllunio ei beichiogrwydd

- Mae **Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes** yn cyfarwyddo byrddau iechyd i ddarparu cwnsela cyn-beichiogi ar gyfer yr holl fenywod o oed beichiogi ar gofrestrau diabetes.

Dylai'r holl fenywod sy'n beichiogi gael gofal gan dîm gofal amlddisgyblaethol sy'n asesu ac yn cefnogi eu holl anghenion, o'r cyfnod cyn-beichiogi i ofal ôl-eni.

- Mae **Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes** yn nodi 'Mae angen i bob menyw sydd â diabetes gael cyngor a chymorth i gynllunio beichiogrwydd yn ofalus. Rhaid i'r sawl y mae arnynt angen gwella eu rheolaeth ar glycemia cyn beichiogi gael mynediad i gymorth i gyflawni hynny'n amserol, a dylent gael gofal gan dîm amlddisgyblaethol a arweinir gan obstetreg a meddyg a enwir, cyn a thrwy gydol y beichiogrwydd'.

**MAE MENYWOD Â DIABETES NEU DIABETES
YN YSTOD BEICHIOWRWDYDD ANGEN
MEWNBWN ARBENIGOL PAN FYDDANT YN
FEICHIOWRWDYDD NEU'N CYNLLUNIO BEICHIOWRWDYDD**

Mae Diabetes UK Cymru yn falch o nodi yn 2014 y bydd Archwiliad Cenedlaethol Diabetes mewn Beichiogrwydd yn digwydd yng Nghymru. Bydd holl ysbytai Cymru yn cyfrannu at y prif Archwiliad Diabetes Cenedlaethol ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo bod yn rhaid i fyrddau iechyd gymryd rhan yn yr elfen feichiogrwydd newydd. Am y tro cyntaf, bydd y fframwaith asesu allanol hwn yn galluogi trosolwg effeithiol o wasanaethau beichiogrwydd ar gyfer cleifion â diabetes a'r graddau y mae ymrwymadau'n cael eu gweithredu ledled holl safleoedd Cymru

*Mae diabetes yn ystod beichiogrwydd yn fath o diabetes sy'n dod i'r amlwg yn ystod beichiogrwydd.

14 GOFAL ARBENIGOL

Mae diabetes a rheoli diabetes yn gymhleth, a gall hyn fod hyn yn oed yn fwy heriol pan fydd pobl â diabetes yn datblygu cymhlethdodau sy'n berthnasol i'w diabetes, neu os ydynt yn cael diagnosis o gyflyrau neu salwch arall.

Dylai pobl â diabetes weld gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i'w helpu i reoli eu diabetes. Mae diabetes yn effeithio ar wahanol rannau o'r corff a dylai pobl gael y cyfle i weld gweithwyr proffesiynol arbenigol megis offthalmolegwyr, podiatryddon a dietegwyr.


Mae ysbytai yng Nghymru yn adrodd gostyngiad mewn staff arbenigol, ar draws ystod o arbenigeddau.

Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi cydnabod y rôl hanfodol y mae Nyrsys Diabetes Arbenigol yn ei darparu wrth roi gofal ac uwchsgilio staff cyffredinol y practis a'r ward.

Argymhellodd 'y dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd ag ymchwiliad o nifer y nyrsys diabetes arbenigol mewn swyddi ledled Cymru, a chyfran yr amser y maent yn ei dreulio ar ddyletswyddau cyffredinol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y gwerth o ddefnyddio canllawiau i fyrrdau iechyd ar nifer y nyrsys diabetes a argymhellir fesul pen y boblogaeth.' Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan y Gweinidog Iechyd.

Mae NICE yn rhoi canllawiau clir ar gynyddu hygyrchedd therapi pypmiau inswlin, fodd bynnag mae llawer o bobl yn parhau i gael anhawster i gael mynediad i bwmp a'r cymorth cysylltiedig, oherwydd costau, diffyg gwybodaeth arbenigol neu hyd yn oed methu â chael asesiad i weld a ydynt yn gymwys. Mae Diabetes UK Cymru yn cynorthwyo llawer o bobl sy'n rhwystredig â'r anghysondeb rhwng yr hyn y mae ganddynt hawl iddo a'r hyn y maent yn ei gael. Mae rhai byrrdau iechyd yn adrodd am restrau aros o dros naw mis o bobl sydd wedi cael presgripsiwn am bwmp inswlin.

Cyfartaledd y staffio ar gyfer gofal i bobl â diabetes yng Nghymru, 2012.



Ffynhonnell: Archwiliad Cenedlaethol Cleifion Mewnol â Diabetes 2012

Mae Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes wedi mynd i'r afael â'r mater hwn ac wedi nodi y dylai therapi pypmiau inswlin a'r addysg hanfodol gysylltiedig fod ar gael i'r holl ymgeiswyr cymwys i wella ansawdd eu bywydau. Mae'n argymhell 'y dylai cynllun cyflawni arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys gofyniad i wella argaeledd addysg a hyfforddiant ar y defnydd o bympiau inswlin'.

15

CYMORTH EMOSIYNOL A SEICOLEGOL

Mae cael diagnosis o diabetes a byw gyda chyflwr hirdymor yn gallu bod yn anodd. Dylai pobl â diabetes allu siarad am eu problemau a'u pryderon â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, sydd wedi'u hyfforddi mewn gofal seicolegol a diabetes.

Roedd adroddiad Diabetes UK, Minding the Gap (2008), wedi dangos bod 85 y cant o bobl â diabetes heb fynediad i wasanaethau seicolegol arbenigol, a hyd yn oed pan fo gwasanaeth ar gael mae'r amseroedd aros yn aml yn hir iawn.⁷⁴

Roedd yr adroddiad wedi amcangyfrif bod tua 41 y cant o bobl â diabetes yn dioddef lles seicolegol gwael.

Mae cyfraddau iselder yn dyblu mewn pobl â diabetes ac mae 'costau' diffyg triniaeth o ran iselder diabetes yn uchel, oherwydd ei effaith negyddol ar hunan ofal diabetes a chadw at feddyginiaethau, gan arwain at hyperglacemia a chynnydd mewn cymhlethdodau a chostau gofal iechyd.

- Mae Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes yn nodi, 'dylai gweithwyr proffesiynol sy'n rhoi cymorth i unigolion sydd â diabetes gael hyfforddiant ynghylch technegau seicolegol' i gynorthwyo gwell triniaeth a chymorth cymdeithasol.

CYFEIRNODAU

1. Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Diabetes 2012: <http://www.senedd.assemblywales.org/mglssueHistoryHome.aspx?Ild=4164>
2. GIG Cymru. (2003). Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes: safonau. http://www.wales.nhs.uk/documents/DiabetesNSF_cy.pdf
3. Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Diabetes: <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/diabetes/?skip=1&lang=cy>
4. Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Wasanaethau Fferylliaeth 2012: <http://www.senedd.assemblywales.org/mglssueHistoryHome.aspx?Ild=1532>
5. Cynulliad Cymru. Trafodaeth y Cyfarfod Llawn. 16 Hydref 2013
6. Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2011–2012. Adroddiad 1: Prosesau Gofal a Thriniaethau Targed. <http://www.hscic.gov.uk/catalogue/PUB12421>
7. Fframwaith Canlyniadau Ansawdd 2013–2014: http://www.eguidelines.co.uk/eguidelinesmain/external_guidelines/qof.php
8. Cynllun 1000 o Fwydau a Mwy. <http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/home>
9. Archwiliad Cenedlaethol Cleifion Mewnol â Diabetes 2012. <http://www.hscic.gov.uk/searchcatalogue?q=%22National+Diabetes+Inpatient+Audit%22&sort=Most+recent&size=10&page=1#top>
10. Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2011–2012. Adroddiad 1: Op. Cit
11. Ibid
12. Llwybr Rhoi Eich Traed yn Gyntaf: <http://www.diabetes.org.uk/Documents/Professionals/Education%20and%20skills/Footcare-pathway.0212.pdf>
13. Archwiliad Cenedlaethol Cleifion Mewnol â Diabetes 2012. Op Cit
14. Ibid
15. Gwerthusiad Technoleg NICE (TA151): Pympliau Inswlin. <http://guidance.nice.org.uk/TA151/Guidance/pdf/English>
16. Ffigurau'n seiliedig ar ddata enghreifftiol cyffredinolrwydd diabetes AHPO (Cymdeithas Gweithwyr Proffesiynol Offthalmoleg). <http://www.yhpho.org.uk/default.aspx?RID=81090>
17. Ibid
18. Gillies CL et al, Pharmacological and lifestyle interventions to prevent or delay type 2 diabetes in people with impaired glucose tolerance: systematic review and meta-analysis. *BMJ* 2007; 334–299
19. Ffigurau'n seiliedig ar ddata enghreifftiol cyffredinolrwydd diabetes AHPO: <http://bit.ly/aphodiabetes>: Mae model AHPO yn amcangyfrif erbyn 2025 y bydd 4,189,229 miliwn o bobl yn Lloegr â diabetes, 371,310 o bobl yn yr Alban, a 287,929 o bobl yng Nghymru. Ni chafodd y model ei ddefnyddio i roi rhagfyniad ar gyfer 2025 i Ogledd Iwerddon felly rydym yn defnyddio cyfanswm amcangyfrif model presennol APHO ar gyfer y rheini a gafodd ddiagnosis a'r rheini heb ddiagnosis ar gyfer 2010 o 109,000 [na chafodd ei gyhoeddi]. Trwy adio rhain mae'n rhoi amcangyfrif o bum miliwn o bobl â diabetes yn 2025
20. Diabetes UK. (2011). Diabetes y DU yn 2011–12 ystadegau allweddol ar diabetes. Ar gael : <http://www.diabetes.org.uk/Professionals/Publications-reports-and-resources/Reports-statistics-and-case-studies/Reports/Diabetes-in-the-UK-2011/>
21. Model cyffredinolrwydd diabetes AHPO. Op Cit.
22. Emerging Risk Factors Collaboration, Diabetes mellitus, fasting glucose, and risk of cause-specific death. *N Engl J Med.* 2011 Mar 3;364(9):829–41. Erratum in: *N Engl J Med.* 2011. Mar 31;364(13):1281
23. Canolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. (2011). Archwiliad Diabetes Cenedlaethol Dadansoddiad Marwolaeth. Diwygiwyd data'r DU i ganiatáu ar gyfer cymhareb poblogaeth DU/Cymru. Ar gael: http://www.ic.nhs.uk/webfiles/Services/NCASP/Diabetes/200910%20annual%20report%20documents/NHS_Diabetes_Audit_Mortality_Report_2011_Final.pdf
24. Ibid
25. Kohner E, Allwinkle J, Andrews J et al (1996). Saint Vincent and improving diabetes care: report of the Visual Handicap Group. *Diabetic Medicine* 13, suppl 4; s13–s26. Mae prinder data cyfredol. Gallai'r ffigurw ostwng trwy well sgrinio
26. Arun CS, Ngugi N, Lovelock L et al (2003). Effectiveness of screening and preventing blindness due to diabetic retinopathy. *Diabetic Medicine* 20 (3); 186–190
27. Diabetes yn y DU 2011–12 Ystadegau Allweddol ar Diabetes. Op Cit
28. Y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. (2011). Adroddiad Pediatrig Diabetes Cenedlaethol 2009–2010. Ar gael: http://www.ic.nhs.uk/webfiles/Services/NCASP/Diabetes/200910%20annual%20report%20documents/NHSIC_National_Diabetes_Paediatric_Audit_Report_2009_2010.pdf
29. Yn deillio o gofrestrau y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd a chyffredinolrwydd cymhlethdodau diabetes o Archwiliad Cenedlaethol Diabetes ym mlynnyddoedd (2006–2010). Mae'r ffigurau'n cynrychioli canran y cynnydd yn nifer amcangyfrifedig y bobl â chymhlethdodau, ar yr amod bod cyfraddau cyffredinolrwydd cymhlethdodau wedi'u hadlewyrchu ymhlith y bobl a gafodd ddiagnosis o diabetes ar gofrestrau Fframwaith y Canlyniadau Ansawdd
30. Hex N, Bartlett C, Wright D, Taylor M, Varley D. (2012). Amcangyfrif y costau presennol a'r costau yn y dyfodol diabetes Math 1 a Math 2 yn y Deyrnas Unedig. Cafwyd y ffigurw ar gyfer Cymru trwy gymhwysu'r gost i gyfradd poblogaeth Cymru/DU

31. Ibid
32. Addysg Strwythuredig am Diabetes, Cymru. (2011). Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar Diabetes ar gyfer Cymru
33. Model cyffredinolrwydd diabetes AHPO. Op Cit.
34. Ibid
35. Ibid
36. Ibid
37. Diabetes UK. (2010). Cyflwr Diabetes yn y DU 2009. Ar gael:<http://www.diabetes.org.uk/Professionals/Publications-reports-andresources/Reports-statistics-and-case-studies/Reports/State-of-Diabetes-Care-in-the-UK-2009/>
38. Adroddiad Archwilio Diabetes Pediatrig Cenedlaethol 2009-2010
39. Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2011–2012. Adroddiad 1: Op. Cit
40. Ibid
41. Ibid
42. Ibid
43. Ibid
44. Ibid
45. Ibid
46. Gwasanaeth Sgrinio Retinopathi Diabetes ar gyfer Cymru (2012). Adolygu'r Gwasanaeth. Crowder, A
47. Ibid
48. Kerr M. 2012 Foot Care for people with diabetes: the economic Case for Change. Diabetes GIG a Gofal yr Arennau
49. Diabetes yn y DU 2011–12 Ystadegau Allweddol ar Diabetes. Op Cit
50. Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2011–2012. Adroddiad 1: Op. Cit
51. GIG Gofal Cywir. (2011). Atlas GIG o'r Amrywiad mewn Gofal Iechyd
52. Ibid
53. Kerr M. 2012 Foot Care for people with diabetes: the Economic Case for Change. Diabetes GIG a Gofal yr Arennau. Diwygiwyd y data ar gyfer cymhareb poblogaeth DU/Cymru
54. Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2011–2012. Adroddiad 1: Op. Cit
55. Archwiliad Cenedlaethol Cleifion Mewnol â Diabetes 2012. Op Cit
56. Yn deillio o: Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2010. Cancer Survival in England: One year and Five year Survival for 21 Common Cancers, by Sex and Age; Moulik K et al. 2003. Amputation and Mortality in New-Onset Diabetic Foot Ulcers Stratified by Etiology. Diabetes Care 26; Khanoklar MP, et al. 2008. The Diabetic Foot
57. Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2011–2012. Adroddiad 1: Op. Cit
58. Addysg Strwythuredig am Diabetes, Cymru. (2011). Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar Diabetes i Gymru [heb ei gyhoeddi]
59. Arolwg Iechyd Cymru 2011. <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy>
60. Williamson DF, Thompson TJ, Thun M, Flanders D, Pamuk E and Byers T.(2000). Intentional weight loss and mortality among overweight individuals with diabetes. Diabetes Care. vol. 23 (no. 10), 1499–1504
61. Archwiliad Diabetes Cenedlaethol 2009–2010: <http://www.hqip.org.uk/assets/NCAPOP-Library/National-Diabetes-Audit-Executive-Summary-2009-2010.pdf>
62. Arolwg Iechyd Cymru 2011. Op Cit
63. ASH/YouGov 2013. http://www.ashwales.org.uk/creo_files/upload/downloads/fact_sheet_yougov_smokefree_survey_2013.pdf
64. Diabetes UK 2009. Gwella hunanreoli a chymorth i bobl â diabetes. http://www.diabetes.org.uk/Documents/Reports/Supported_self-management.pdf
65. Adroddiad Archwilio Diabetes Pediatrig Cenedlaethol 2010/2010. Data Cymru a Lloegr wedi'u cyfuno. Cadarnhawyd ystadegau Cymru gan Grŵp Aberhonddu. Heb ei Gyhoeddi
66. Adroddiad Archwilio Diabetes Pediatrig Cenedlaethol 2010/2011. <http://www.hqip.org.uk/national-paediatric-diabetes-audit-report-2012/>
67. Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. (2011). Adroddiad Archwilio Diabetes Pediatrig Cenedlaethol 2009–2010. Ar gael: http://www.ic.nhs.uk/webfiles/Services/NCASP/Diabetes/200910%20annual%20report%20documents/NHSIC_National_Diabetes_Paediatric_Audit_Report_2009_2010.pdf
68. Addysg Diabetes Strwythuredig, Cymru. (2011). Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar Diabetes i Gymru. [heb ei gyhoeddi]
69. Archwiliad Cenedlaethol Cleifion Mewnol â Diabetes 2012. Op Cit
70. Ibid
71. Ibid
72. Ibid
73. Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus. <http://www.ombudsman-wales.org.uk/>
74. Diabetes UK. (2008). Minding the Gap – The provision of psychological support and care for people with diabetes in the UK. Ar gael. http://www.diabetes.org.uk/Documents/Reports/Minding_the_Gap_psychological_report.pdf

Ystadegau'r dudalen flaen – <http://www.hscic.gov.uk/se/archcatalogue?productid=12878&returnid=1685> (mae'r cyfeirnod yn cynnwys mynediad i holl adroddiadau byrddau iechyd yng Nghymru. Ym mhob adroddiad, mae tudalen 8 (ffigwr 3) yn arddangos amrywiad uchel y '% o gleifion sy'n cael yr wyth proses gofal ledled yr holl feddygfeydd teulu').

CYDNABYDDIAETHAU

Rydym am ddiolch i bawb a gyfrannodd at gynhyrchu'r adroddiad hwn a'r rhai a fu'n cynorthwyo; aelodau sefydliadau'r Gwasanaeth Gwybodaeth Diabetes Cenedlaethol. Rydym hefyd am ddiolch i Lywodraeth Cymru am gael defnyddio data'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd sydd ar gael yn gyhoeddus a'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ddarparu a defnyddio'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol, Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol a'r Archwiliad Cleifion Mewnol Diabetes Cenedlaethol.



Mae Takeda UK Ltd wedi cefnogi cynhyrchu'r adroddiad hwn ar Gyflwr y Genedl yn ariannol. Nid yw Takeda wedi cyfrannu at ddatblygiad y ddogfen hon na'i chynnwys.

DiABETES UK
CARE. CONNECT. CAMPAIGN.
GOFALU. CYSYLLTU. YMGYRCHU.
CYMRU

Tŷ Argyle, Castlebridge, Cowbridge Road East, Caerdydd CF11 9AB
Ffôn 029 2066 8276 E-bost wales@diabetes.org.uk
Ffacs 029 2066 8329 Gwefan www.diabetes.org.uk

Elusen a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru (215199) ac yn yr Alban (SC039136). Hawlfraint Diabetes UK 2013 0160B